



YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN LLWYBR BYSIAU PENWALLIS, ABERGWAUN

Hysbysiad

Mae'r ddogfen hon a'i chynnwys wedi'u paratoi ac wedi'u bwriadu'n unig fel gwybodaeth i'w defnyddio mewn perthynas ag Ymgynghoriad Cynllun Llwybr Bysiau Penwallis, Abergwaun.

Nid yw AtkinsRéalis UK Limited yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw barti arall mewn perthynas â'r ddogfen hon a/neu ei chynnwys neu sy'n deillio ohoni neu mewn cysylltiad â hi.

Mae gan y ddogfen hon 37 tudalen gan gynnwys y clawr.

Hanes dogfen

Teitl y ddogfen: Ymgynghoriad ar Gynllun Llwybr Bysiau Penwallis, Abergwaun

Cyfeirnod y ddogfen: 2.0

Adolygiad	Disgrifiad o'r pwrpas	Tarddiad	Gwiriwyd	Adolygwyd	Awdurdodwyd	Dyddiad
1.0	Dosbarthiad drafft i'r cleient	HN/GR	SG	JS	AK	20/01/25
2.0	Dosbarthiad i'r cleient	GR	SG	JS	AK	11/04/25

Cymeradwyaeth cleient

Cleient	Cyngor Sir Penfro
Prosiect	YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN LLWYBR BYSIAU PENWALLIS, ABERGWAUN
Rhif swydd	100112556
Llofnod/dyddiad cleient	



Cynnwys

1.	Rhagymadrodd	5
1.1	Pwrpas yr adroddiad	5
1.2	Strwythur yr adroddiad	5
2.	Trosolwg o'r prosiect	6
2.1	Newidiadau arfaethedig	6
3.	Dull ymgysylltu	9
3.1	Arolwg ar-lein	9
3.2	Diwrnod ymgysylltu 'reidio ar hyd' ac arolwg.....	9
4.	Arolwg ar-lein – dadansoddi ymatebion	10
4.1	Arolwg	10
4.1.1	Gwasanaethau bws	10
4.1.2	Barn ar y cynnig	12
4.1.3	Graddio'r opsiynau	16
4.1.4	Anghenion hygyrchedd a sylwadau pellach	16
4.1.5	Gwybodaeth ddemograffig	19
5.	Casgliadau o ddadansoddiad arolwg ar-lein	26
6.	Ymgysylltiad Diwrnod 'reidio ar hyd' – dadansoddi'r ymatebion.....	27
6.1.1	Pwrpas ac amllder teithiau bws	27
6.1.2	Opsiynau	29
6.1.3	Sylwadau pellach	33
7.	Casgliadau o ddadansoddiad arolwg diwrnod ymgysylltu 'reidio ar hyd'	35
8.	Camau nesaf	36

Byrddau

Tabl 5-1 - Casgliadau o ymatebion i'r arolwg	26
Tabl 7-1 – Casgliadau o ymatebion i'r arolwg.....	35

Ffigurau

Ffigur 2-1 - Cynigion llwybr bysiau.....	7
Ffigur 4-1 - Ydych chi'n defnyddio'r gwasanaeth bws yn eich ardal leol ar hyn o bryd?	11
Ffigur 4-2 - Os ydych wedi ateb 'ydw', rhwch wybod beth yw eich rheswm dros gymudo ar fws?	12
Ffigur 4-3 - Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu, a fyddai'n eich annog i ddefnyddio'r gwasanaeth bws hwn yn amlach?.....	13



Ffigur 4-4 - Ydych chi'n cefnogi'r cynnig llwybr bws hwn?.....	14
Ffigur 4-5 - Os ydych wedi ateb nac ydw neu'n ansicr i gwestiynau 2, 4 a 5, dywedwch pam wrthym?	15
Ffigur 4-6 - O ran safle rhif 3 ar y cynlluniau arfaethedig, rhowch y ddau opsiwn yn eu trefn, 1 yw eich dewis gorau? (Dewis a ffafir).....	16
Ffigur 4-7 - Os oes gennych unrhyw anghenion mynediad ychwanegol, a ydych yn teimlo y byddai'r cynnig yn gweddu i'ch gofynion?	17
Ffigur 4-8 - Os ydych wedi ateb nac ydw neu'n ansicr, dywedwch pam wrthym?	18
Ffigur 4-9 - A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ar y cynnig hwn?	19
Ffigur 4-10 - Pa mor hen ydych chi?.....	20
Ffigur 4-11 - Pa ryw ydych chi'n ei nodi?	21
Ffigur 4-12 - A oes gennych unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch sy'n para neu y disgwylir iddynt bara 12 mis neu fwy?	22
Ffigur 4-13 - A yw unrhyw rai o'ch cyflyrau neu salwch yn lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd?	23
Ffigur 4-14 - A oes gennych incwm cartref net isel?	24
Ffigur 4-15 - Pa effeithiau ydych chi'n teimlo y byddai'r cynnig(cynigion) yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?	25
Ffigur 6-1 - Beth yw eich pwrpas ar gyfer defnyddio'r bws?	27
Ffigur 6-2 - Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r bws?	28
Ffigur 6-3 - Pa effaith fyddai'r llwybrau arfaethedig hyn yn ei chael ar eich taith?	29
Ffigur 6-4 - Pa mor fuddiol yn eich barn chi fyddai'r llwybr arfaethedig newydd drwy Benwallis – Bryn Llewellyn – Heol Glyndŵr (Llwybr Pinc)?	30
Ffigur 6-5 - Pa mor fuddiol yn eich barn chi fyddai'r llwybr arfaethedig newydd drwy Benwallis – Heol Caradog – Dan y Bryn (Llwybr Coch)?	31
Ffigur 6-6 - Pa mor fuddiol yn eich barn chi fyddai safle bws newydd ym Mhenwallis?	32
Ffigur 6-7 - Gan edrych ar yr opsiynau, pa un sydd orau gennych chi?	33



1. Rhagymadrodd

1.1 Pwrpas yr adroddiad

Mae Cyngor Sir Penfro (CSP) wedi ymgysylltu i gael adborth gan aelodau'r cyhoedd a chymudwyr ar y cynigion canlynol:

1. Agorwch un neu'r ddau o'r pengaeadau presennol sydd wedi'u lleoli rhwng Heol Caradog a Dan y Bryn, a rhwng Heol Glyndwr a Bryn Llewellyn.
2. Ail-lwybro'r gwasanaeth bws 410.

Mae dwy rownd o ymgysylltu wedi'u chynnal fel rhan o'r ymgysylltiad ehangach ar gyfer gwelliannau teithio cynaliadwy ledled Sir Benfro. Cynhaliodd CSP y cyfnod ymgysylltu cyntaf am bedair wythnos o ddydd Gwener 1^{af} Tachwedd i ddydd Gwener 29^{ain} Tachwedd 2024, gan gynnal arolwg cymunedol ar-lein i gasglu adborth.

Er mwyn cael adborth uniongyrchol gan aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth bws, cynhaliodd dau aelod o Dîm Trafnidiaeth Strategol CSP ddiwrnod 'teithio' ar y gwasanaeth bws 410 ar 20^{fed} Chwefror 2025. Nod yr ail rownd hon o ymgysylltu oedd ymgysylltu ymhellach â'r gymuned leol i ddeall sut y gallai'r newidiadau arfaethedig bod o fudd iddynt neu effeithio arnynt, casglu adborth ar y llwybr a ffafir ar gyfer y gwasanaeth bysiau, a chasglu unrhyw awgrymiadau eraill ar y cynigion.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o sut cynhaliwyd yr ymgysylltiad a sut y dadansoddwyd yr ymatebion a dderbyniwyd. Mae canlyniadau'r dadansoddiad hwn, ac amlinelliad o sut y bydd CSP yn ystyried yr ymatebion yng ngham nesaf y prosiect, hefyd yn cael eu cyflwyno. Mae'r adborth a dderbyniwyd hefyd wedi rhoi mewnwelediad lleol gwerthfawr i'r Cyngor ynghylch y prosiect hwn a phrosiectau eraill yn yr ardal.

1.2 Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad ymgysylltu hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- **Pennod 2 Trosolwg o'r prosiect:** cyd-destun y prosiect a chrynodeb o ymgysylltiad blaenorol.
- **Pennod 3 Dull ymgysylltu:** dulliau ymgysylltu, deunyddiau a hyrwyddo, adborth, dadansoddi a hygyrchedd.
- **Pennod 4 Arolwg ar-lein – dadansoddi ymatebion:** themâu cyffredin sy'n codi o'r ymgysylltiad.
- **Pennod 5 Casgliadau o ddadansoddiad arolwg ar-lein:** canfyddiadau allweddol o'r ymgysylltiad a'r camau gweithredu sy'n deillio o'r adborth a ddadansoddwyd.
- **Pennod 6 Camau nesaf:** amlinellu'r camau nesaf yn dilyn ymgysylltu.



2. Trosolwg o'r prosiect

Mae CSP yn anelu at wella'r gwasanaeth bws presennol ym Mhenwallis a'i chyffiniau. Nod y cynnig yw:

- Gwella cysylltedd bysiau o fewn yr ystâd.
- Cynyddu hygyrchedd a chyfleusterau i bobl â symudedd cyfyngedig, neu le nad oes cyfleusterau da ar hyn o bryd, os o gwbl, ar gyfer teithwyr trafndiaeth gyhoeddus.
- Gwella amseroedd teithiau ar fws.
- Cynnig dewis arall gwerthfawr yn lle cerdded a/neu ar gyfer y rhai a fyddai fel arfer yn defnyddio cerbyd neu'n dewis cerbyd hurio preifat.
- Gwella diogelwch ar y ffyrdd.
- Gwella ansawdd cyffredinol yr aer a lleihau'r ôl troed carbon, gan gyfrannu at Gymru fwy iach drwy annog pobl i adael eu cerbydau gartref.

2.1 Newidiadau arfaethedig


Mae'r ardal Penwallis yn gartref i nifer o deuluoedd, henoed a phobl fregus sy'n dibynnu ar y gwasanaeth bws i gael mynediad i addysg, gofal iechyd, siopa a chyfleusterau hamdden. Ar hyn o bryd, nid yw'r ardal yn cael ei gwasanaethu'n ddigonol gan y gwasanaeth bysiau oherwydd y seilwaith ffyrdd.

Mae CSP hefyd yn teimlo, ar hyn o bryd, bod y llwybr bws o amgylch Penwallis yn aneffeithlon, gan ei fod yn cynnwys pengaead rhwng Heol Caradog a Dan y Bryn, a rhwng Heol Glyndwr a Bryn Llewellyn. Mae'r sefyllfa bresennol yn gorfodi gwasanaeth bws 410 facio'n ôl a newid cyfeiriad yng nghanol ei lwybr ger Heol Glyndŵr, gan effeithio ar yr amser sydd ei angen i wasanaethu Penwallis. Felly, mae ailgyfeirio'r bws, ac agor o leiaf un pengaead wedi'i gynnig yn y cynlluniau hyn.

Mae Ffigur 2-1 yn dangos y newidiadau arfaethedig, ynghyd â lleoliad y terfynau terfyn presennol.



Ffigur 2-1 - Cynigion llwybr bysiau



Mae dau lwybr yn y camau dylunio cychwynnol ar hyn o bryd, ac ni chaiff unrhyw benderfyniad ei wneud ar y llwybr terfynol nes bydd adborth o'r ddwy rownd o ymgysylltu wedi'i gasglu a'i ddadansoddi. Mi fydd Opsw'n 1 (y llwybr coch a ddangosir yn Ffigur 2-1) yn agor y pengaead rhwng Heol Caradog a Dan y Bryn, gyda dau opsiwn arfaethedig wedi'u nodi isod. Byddai'r llwybr yn dilyn y llwybr presennol ar hyd Heol Preseli, gan droi i Benwallis a Bryn Llewellyn, cyn cyrraedd Heol Caradog a Dan y Bryn (trwy'r pengaead presennol a fydd wedi'i agor) a dychwelyd i'r llwybr cylchol presennol.

Mae'r llwybr amgen, Opsw'n 2 (a ddangosir mewn pinc yn Ffigur 2-1) yn cynnig agor y pengaead rhwng Heol Glyndwr a Bryn Llewellyn. Byddai'r llwybr hwn yn dilyn yr un llwybr cychwynnol â'r llwybr arfaethedig arall ond byddai'n parhau ar Fryn Llewellyn yn lle mynd i Heol Caradog. Byddai'r gwasanaeth hwn wedyn yn parhau i Heol Glyndwr, cyn dychwelyd i'r llwybr cylchol presennol.

Mae yna bosibilrwydd gallai'r gwasanaeth redeg i'r naill gyfeiriad neu'r llall ar y llwybrau arfaethedig, ac nid yw'r opsiwn a ffafir wedi'i gadarnhau eto. Byddai'r ailgyfeirio yn gwella gwasanaeth bws 410 ac yn galluogi cymuned Penwallis i gael mynediad i'r gwasanaeth bws mewn lleoliad cyfagos.

Mae dau opsiwn wedi'u cynnig ar gyfer pengaead Heol Caradog / Dan y Bryn (pengaead ar y llwybr coch):

- Opsiwn 1: cael gwared ar folardiau presennol a chaniatau traffig unffordd, a lledu'r ffordd.
 - Byddai hyn yn golygu y gallai'r holl draffig ddefnyddio'r rhan hon o'r ffordd a byddai'n helpu i wella cysylltedd o fewn yr ystâd. Fodd bynnag, gallai hefyd achosi i'r llwybr gael ei ddefnyddio fel llwybr byr.
- Opsiwn 2: cael gwared ar folardiau presennol a throï'r pengaead yn gât fysiau, gan ledu'r ffordd bresennol a gosod giât rhwystr i reoli mynediad.
 - Byddai hyn yn golygu mai dim ond cerbydau awdurdodedig fyddai â mynediad rhwng Heol Caradog a Dan y Bryn (i'w atal rhag dod yn llwybr byr). Fodd bynnag, byddai'n achosi i gerbydau anawdurdodedig droi o gwmpas yn y lleoliad hwn ac ni all unrhyw gerbydau basio trwodd pe bai cerbydau wedi torri i lawr yn annisgwyl.

Cynigiwyd gosod system unffordd ar gyfer y llwybro sy'n ymwneud â'r pengaead rhwng Heol Glyndwr a Bryn Llewellyn (pengaead ar y llwybr pinc). Mae hyn yn anelu at agor mynediad i bob symudiad traffig o fewn Penwallis a gwella cysylltedd o fewn yr ystâd, fodd bynnag mae pryderon y gallai gael ei ddefnyddio fel llwybr byr ar gyfer traffig trwodd. Felly, ar y gyffordd rhwng Penwallis a Bryn Llewellyn, cynigir gosod arwyddion sy'n nodi nad oes llwybr drwodd ac eithrio bysiau.

Mae gwelliannau arfaethedig i bengaead Heol Glyndwr a Bryn Llewellyn yn cynnwys:

- Cael gwared ar yr ardal laswellt presennol a rhoi wyneb tarmac yn ei lle.
- Adeiladu croesfan heb ei rheoli i gerddwyr.
- Rhoi gorchymyn stryd unffordd ar waith sy'n caniatáu traffig unffordd yn unig (o Fryn Llewellyn i Heol Glyndwr).
- Gosod llinellau melyn dwbl i atal parcio ar y stryd.
- Adeiladu ynys goncrit gan wahanu parcio a thraffig i drigolion.



3. Dull ymgysylltu

Pwrpas yr ymgysylltiad oedd ymgysylltu'n ffurfiol â'r gymuned leol ar y cynigion ar gyfer newidiadau i lwybr y gwasanaeth bws 410 ac agor un neu ddau o'r pengaeadau ym Mhenwallis. Nod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein oedd casglu adborth ar y newidiadau arfaethedig, gan gasglu barn ar hygyrchedd a chysylltedd ym Mhenwallis, a nod yr ail rownd o ymgysylltu oedd adeiladu ar adborth a gafwyd o'r arolwg ar-lein.

3.1 Arolwg ar-lein

Er mwyn deall barn pobl yn well ar sut i fireinio dyluniad y cynllun, datblygodd CSP arolwg a gyhoeddwyd ar-lein a'i hyrwyddo yn y gymuned. Cynhaliwyd yr arolwg ar Microsoft Forms a chafwyd mynediad iddo trwy ddolen o wefan CSP. Roedd copïau papur o'r dyluniadau a'r arolwg, ynghyd â blwch sylwadau, ar gael yn Neuadd y Sir. Roedd yr arolwg ar gael yn Gymraeg yn y ddau fformat, ac roedd copïau wedi'u postio o'r dyluniadau a'r arolwg ar gael ar gais.

Nod cwestiynau'r arolwg oedd casglu adborth ar y cynigion. Roedd y cwestiynau'n cynnwys nifer o gwestiynau agored a chaeedig, gyda phob cwestiwn yn cael ei osod ar gyfer cynigion yn canolbwyntio ar sut roedd unigolion yn defnyddio'r gwasanaeth bws presennol, a fyddai'r cynigion yn effeithio ar eu ffyrdd o deithio, a'r opsiwn a ffafir gan ymatebwyr ar y pengaead rhwng Heol Caradog a Dan y Bryn.

Cynhaliwyd yr arolwg am gyfnod o bedair wythnos o ddydd Gwener 1^{af} Tachwedd i ddydd Gwener 29^{ain} Tachwedd 2024.

3.2 Diwrnod ymgysylltu 'reidio ar hyd' ac arolwg

Cynhaliwyd y diwrnod 'reidio ar hyd' ar ddydd Iau 20^{fed} Chwefror 2025 rhwng 09.30 – 12.30 a 13.30 – 14.20. Dewiswyd yr amseroedd hyn ar gyngor Arweinydd Teithwyr Bysiau CSP, a benderfynodd dydd Iau oedd y diwrnod gorau i gynnal yr ymgysylltiad, gyda'r siawns orau o ddenu mwy o ddefnyddwyr (gyda'r farchnad drefol leol hefyd yn digwydd ar ddydd Iau). Rhoddwyd gwybod i'r Cynghorwyr Sir Leol a Chynghorwyr Tref am yr ymgynghoriad pellach hwn.

Cynhaliwyd arolwg papur byr yn gofyn i ddefnyddwyr y bws beth oedd pwrpas eu taith a beth oedd eu barn ar y llwybrau bysiau arfaethedig ynghyd â chyfle iddynt ychwanegu unrhyw sylwadau pellach. Roedd cynlluniau hefyd ar gael (yn Gymraeg ac yn Saesneg). Cwblhawyd cyfanswm o 20 arolwg ac roedd hwn hefyd yn gyfle da i siarad ag aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol am eu hanghenion a'u profiadau o drafnidiaeth gyhoeddus.

Roedd mwyafrif y defnyddwyr bysiau yn breswylwyr wedi ymddeol sy'n defnyddio'r bws yn ddyddiol i gael mynediad i siopau a gwasanaethau, a mynegodd y gyrrwr bws nad oedd mor brysur ar y diwrnod oherwydd y glaw trwm yn y bore. Er bod CSP eisiau cael adborth gan y rhai sy'n defnyddio ardal Penwallis, roedd y rhan fwyaf o'r teithiau ar y diwrnod yn rhai a oedd yn teithio o Wdig i Sgwâr Abergwaun. Nododd y ddau aelod o Dîm Trafnidiaeth Strategol CSP oedd yn ymgymryd â'r daith gerdded, fod yna ysbryd cymunedol da gan y defnyddwyr, bod eu teithiau dyddiol yn rhan fawr o'u cymdeithasu, ac roedd yn bleser siarad â nhw.



4. Arolwg ar-lein – dadansoddi ymatebion

4.1 Arolwg

Derbyniwyd 49 o ymatebion i'r arolwg trwy ymatebion ar-lein ac ar gopïau papur. Hysbysebwyd yr arolwg ar-lein rhwng dydd Gwener 1^{af} Tachwedd a dydd Gwener 29^{ain} Tachwedd 2024.

Mae'n bwysig nodi, er bod 49 o ymatebwyr unigol wedi ateb cwestiynau'r arolwg, yn yr adran ganlynol, mae graffiau a chanddynt dros 49 o ymatebion yn cynnwys ymatebion i nifer o gwestiynau wedi'u cyfuno. Yn ogystal, efallai na fydd canrannau mewn graffiau yn adio i 100% oherwydd mân anghysondebau talgrynnu. Roedd y cwestiynau yn yr arolwg i gyd yn ddewisol i ymatebwyr eu hateb, gan gynnwys y set o gwestiynau *Amdanoch Chi*.

Mae'r holl ymatebion wedi'u hystyried yn adborth yr arolwg.

4.1.1 Gwasanaethau bws


Gofynnodd cwestiwn cyntaf yr arolwg i ymatebwyr a oeddent yn defnyddio eu gwasanaeth bws lleol ar hyn o bryd. Cyflwynir y canlyniadau yn



Ffigur 4-1. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (69%) 'nac-ydw', nid ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth bws yn eu hardal leol ar hyn o bryd. Ymatebodd 31% eu bod nhw yn defnyddio' gwasanaeth ('ydw').




Ffigur 4-1 - Ydych chi'n defnyddio'r gwasanaeth bws yn eich ardal leol ar hyn o bryd?



Mae Ffigur 4-2 yn dangos y rhesymau pam mae ymatebwyr a atebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn uchod, yn dewis teithio ar fws. Gallai pob ymatebydd ddewis nifer o resymau a dyna pam mae cyfanswm yr ymatebion (29) yn fwy na nifer y bobl a ymatebodd yn gadarnhaol i gwestiwn un (15) (gweler

Ffigur 4-1). I'r rhai a atebodd “nac ydw” i'r cwestiwn blaenorol, gofynnwyd iddynt symud i'r set ganlynol o gwestiynau, gan ddechrau efo a fyddent yn cael eu hannog i ddefnyddio'r gwasanaeth pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Ffigur 4-2 - Os ydych wedi ateb 'ydw', rhwch wybod beth yw eich rheswm dros gymudo ar fws?




Teithiau am weithgareddau cymdeithasol oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros deithio ar fws (31%), gyda theithio i gael mynediad i siopau a gwasanaethau (28%) yn dilyn yn agos. Ymweld â ffrindiau a theulu ac at ddibenion gwaith oedd y rheswm poblogaidd nesaf ar y cyd (14%). Dim ond 3% o'r ymatebwyr a nododd eu bod yn defnyddio'r bws i deithio i'r ysgol.

4.1.2 Barn ar y cynnig

Mae Ffigur 4-3 yn dangos a fyddai ymatebwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio'r gwasanaeth bws yn amlach o ganlyniad i gyflwyno'r cynnig.


Ffigur 4-3 - Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu, a fyddai'n eich annog i ddefnyddio'r gwasanaeth bws hwn yn amlach?



Roedd yr ymatebion yn negyddol ar y cyfan, gyda 69% yn ymateb 'na a dim ond 20% yn ymateb 'bydd'. Dywedodd 10% eu bod yn 'ansicr'. Er bod yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn negyddol ar y cyfan, atebodd cyfanswm o 30% o ymatebwyr naill ai "bydd" neu "ansicr", gan awgrymu bod rhywfaint o botensial ar gyfer newid moddol.

Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cefnogi'r cynnig llwybr bws. Cyflwynir yr ymatebion yn Ffigur 4-4 , a dangosir eu bod yn adleisio ymatebion y cwestiwn uchod, gyda 69% yn ymateb 'nac ydw', 20% yn ymateb 'ydw', a 10% yn 'ansicr'.


Ffigur 4-4 - Ydych chi'n cefnogi'r cynnig llwybr bws hwn?



Rhodddwyd cwestiwn testun rhydd i ymatebwyr i adael sylwadau pellach am eu rhesymau dros ateb 'nac-ydw' neu 'ansicr' i'r cwestiynau, a amlygwyd yn

Ffigur 4-1, Ffigur 4-3, a Ffigur 4-4. Dangosir y themâu o'r ymatebion testun rhydd yn Ffigur 4-5. Mae rhai sylwadau wedi'u categorïddio'n themâu lluosog ac, felly, mae cyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn uwch na nifer yr ymatebion i'r arolwg.

Ffigur 4-5 - Os ydych wedi ateb nac ydw neu'n ansicr i gwestiynau 2, 4 a 5, dywedwch pam wrthym?



Y rhesymau mwyaf cyffredin oedd:

- Pryderon ynghylch traffic yn defnyddio'r cefnffyrdd fel llwybr byr i osgoi canol y dref (rat-running) (22%).
- Pryderon diogelwch (21%).
- Pryderon parcio (14%).

Mae pryder cyffredinol gan ymatebwyr, pe bai'r naill ben neu'r llall yn cael ei agor (h.y. y pengaeadau pressenol), y byddai'n annog cerbydau i ddefnyddio'r cefnffyrdd fel llwybr byr i osgoi canol y dref. Teimlai'r ymatebwyr fod y bolardiau a osodwyd ar y palmant wedi'u gosod yn wreiddiol i wrthweithio'r ymddygiad hwn ac, felly, y byddai cael gwared arnynt yn wrthgynhyrchiol ac yn achosi pryderon diogelwch yn y gymuned leol, yn enwedig i drigolion oedrannus, ynghyd â phlant sydd wedi arfer chwarae allan ar y ffordd a natur dawel bresennol y ffyrdd.

Teimlai ymatebwyr hefyd y byddai bysiau yn cyfyngu llif y traffig o amgylch yr ardal (yn enwedig ar adegau prysur) oherwydd lled y ffordd i gerbydau, a'r lefelau presennol o gerbydau wedi'u parcio bob ochr. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn agored i'r syniad o agor y llwybr at ddefnydd bws yn unig. Nododd rhai ymatebion na fyddai ganddynt unrhyw wrthwynebiadau pe bai'n cael ei agor ar gyfer llwybr bws yn unig ac nid ar gyfer traffig arall, pe bai cyfyngiadau a gorfodaeth i sicrhau nad yw'n dod yn llwybr byr. Nododd sawl byddai Opsiwn 2 ar gyfer pengaead Heol Caradog / Dan y Bryn yn ffafriol.

O ran parcio, teimlai rhai y byddai'r llwybr bws yn llesteirio hygyrchedd oherwydd colled llefydd parcio i drigolion; gorfodi trigolion ac ymwelwyr i barcio ymhellach i ffordd. Codwyd y mater hwn gan drigolion oedrannus a'r rhai sy'n

dibynnu ar ofalwyr a gwasanaethau hanfodol eraill. Roedd y cynlluniau o fewn yr ymgynghoriad cyhoeddus yn nodi y byddai dau le parcio yn cael eu colli ar Hoel Glyndwr a (hyd at) ddau le parcio ym Mhenwallis (gyferbyn â Bryn Llewelyn). Dylid nodi bod y ddwy ffordd yn cynnig parcio anghyfyngedig ar ochr y ffordd.


Roedd rhai sylwadau hefyd yn awgrymu nad oedd llawer o alw am fysiau ar draws Abergwaun, fodd bynnag, roedd un sylwad yn awgrymu y gall defnyddio bysiau llai bod yn fuddiol i ateb y galw ac i wrthweithio problemau ynghylch lled y ffordd gerbydau a phryderon diogelwch.

4.1.3 Graddio'r opsiynau

Mae Ffigur 4-6 yn dangos y dewis a ffafrir rhwng y ddau opsiwn ar gyfer pengaead Heol Caradog / Dan y Bryn (safle rhif 3 wedi'i labelu ar gynlluniau dylunio). Y ddau opsiwn yr oedd yn rhaid i ymatebwyr ddewis rhyngddynt oedd:

- Opsiwn 1 – Cael gwared ar y bolard presennol a chaniatau traffig unffordd a lledu'r ffordd bresennol.
- Opsiwn 2 – Cael gwared ar y bolard presennol a throï i mewn i giât fysiau, lledu'r ffordd bresennol a gosod giât rhwystr i reoli mynediad.

Ffigur 4-6 - O ran safle rhif 3 ar y cynlluniau arfaethedig, rhowch y ddau opsiwn yn eu trefn, 1 yw eich dewis gorau? (Dewis a ffafrir)




Mae ffafriaeth glir rhwng y ddau opsiwn, gydag Opsiwn 2 yn cael ei ddewis gan 70% o ymatebwyr. Fel y nodwyd yn y cwestiwn testun rhydd uchod, mae'n debygol mai hwn yw'r opsiwn a ffafrir am fyddai'n gorfodi'r llwybr bws heb greu llwybr byr i draffig cyffredinol.

4.1.4 Anghenion hygyrchedd a sylwadau pellach

Ffigur 4-7 yn dangos ymatebion i weld a yw ymatebwyr yn credu y byddai'r cynnig yn addas ar gyfer anghenion hygyrchedd ychwanegol.


Ffigur 4-7 - Os oes gennych unrhyw anghenion mynediad ychwanegol, a ydych yn teimlo y byddai'r cynnig yn gweddu i'ch gofynion?



O'r rhai a atebodd y cwestiwn, ymatebodd 69% gyda 'nac-ydw', tra bod 27% wedi ymateb 'ydw'. Roedd 4% o ymatebwyr yn ansicr.

Mae Ffigur 4-8 yn amlygu'r prif themâu y tu ôl i'r ymatebion testun rhydd a roddwyd ynghylch pam y dewiswyd ymatebion 'nac-ydw' neu 'ansicr' ar gyfer Ffigur 4-7. Mae'n werth nodi mai dim ond deg o ymatebwyr a adawodd ateb yn y cwestiwn testun rhydd hwn ac, felly, efallai nad yw'r sylwadau'n gynrychioliadol o holl ymatebwyr yr arolwg.

Ffigur 4-8 - Os ydych wedi ateb nac ydw neu'n ansicr, dywedwch pam wrthym?




Y ddau reswm mwyaf cyffredin oedd bod yn erbyn y cynnigion yn gyffredinol (30%) a chael pryderon diogelwch o ganlyniad i'r cynnigion (20%).

Roedd rhai ymatebwyr yn erbyn pob opsiwn oedd yn seiliedig ag agor y pengaeadau a chyflwyno traffig ychwanegol drwy'r ffyrdd lleol. Teimlai ymatebwyr eraill y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith negyddol ar brisiau tai yn yr ardal a hefyd byddai newid natur y ffyrdd (i ganiatáu bysiau) yn lleihau atyniad yr ardal. Dylid nodi nad yw mwyafrif yr ymatebwyr a roddodd y sylwadau hyn yn mynd ar y bws. .

Fel y nodwyd mewn ymatebion testun rhydd blaenorol, awgrymodd un ymatebwr y byddent yn cefnogi'r cynllun pe bai giât fysiau'n cael ei gosod.

Roedd cwestiwn yr arolwg terfynol ynghylch y cynnig bws yn gofyn am unrhyw sylwadau pellach ar y cynnig. Dangosir y prif themâu yn Ffigur 4-9.

Ffigur 4-9 - A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ar y cynnig hwn?



Roedd bod yn erbyn y cynigion yn gyffredinol (26%) yn cael ei adleisio ymhellach yn yr ymatebion testun rhydd hyn. Pryderon amgylcheddol a'r teimlad nad oes llawer o alw am fysiau oedd y themâu mwyaf poblogaidd nesaf gyda 15% o'r ymatebion yr un.

Nododd chwe ymatebwr bryderon amgylcheddol o'r cynigion, a phob un yn ymwneud yn uniongyrchol â'r allyriadau a fyddai'n cael eu cynhyrchu gan fws yn defnyddio'r llwybrau arfaethedig. Teimlai ymatebwyr y byddai bws yn cynyddu llygredd yn yr ardal, gan effeithio'n arbennig ar drigolion bregus. Roedd rhai sylwadau hefyd yn pryderu am yr effaith ar fannau gwyrdd a bywyd gwyllt lleol. Mae Bws 410 yn gweithredu 4 waith y dydd; nid oes unrhyw gynnydd ar hyn o bryd i gynyddu amlder yn y cynnig hwn. Ni ragwelir yr effaith ar lefelau llygredd a/neu fywyd gwyllt lleol.

O ran y galw am fysiau, credai'r ymatebwyr yn gyffredinol na fyddai'r cynnig yn cynyddu'r galw oherwydd bod digon o safleoedd bws lleol ar hyn o bryd. Teimlai ymatebwyr hefyd fod y galw presennol am fysiau yn fach iawn, gydag un sylwad yn nodi y gallai bysiau trydan llai bod yn ffafriol ar gyfer y llwybr.


Fel y nodwyd yn yr adborth a dderbyniwyd o gwestiynau eraill, mae ymatebwyr yn teimlo y byddai angen gorfodi giât y bws (i'w atal rhag dod yn llwybr byr). Nododd un sylw y byddai opsiwn 2 ar gyfer pengaead Heol Caradog / Dan y Bryn yn cael ei ffafrio ar gyfer pengaead i atal traffig trwodd.

4.1.5 Gwybodaeth ddemograffig

Mae Ffigur 4-10 i Ffigur 4-15 amlygu demograffeg y 49 o ymatebwyr i'r arolwg.

Gofynnwyd i ymatebwyr ddewis eu hystod oedran, a dangosir yr ymatebion yn Ffigur 4-10. Atebodd pob un o'r 49 o ymatebwyr y cwestiwn.

Ffigur 4-10 - Pa mor hen ydych chi?




Oedran mwyaf cyffredin yr ymatebwyr yw 35-44 (20% o'r ymatebion), a chynrychiolir oedrannau o dan 15 i dros 75 hefyd. Roedd 46% o'r ymatebwyr yn 55 oed neu'n hŷn, sy'n cynrychioli Abergwaun lle mae 46.6% o'r boblogaeth yn 55 oed neu'n hŷn¹.

Ffigur 4-11 yn dangos y rhyw y mae ymatebwyr yn ei ystyried fel, gyda 48 allan o 49 yn dewis ateb y cwestiwn hwn.

¹ [Build a custom area profile - Census 2021, ONS](#)


Ffigur 4-11 - Pa ryw ydych chi'n ei nodi?




Mae 50% o'r ymatebwyr yn fenywod, 44% yn ddynion, gyda 4% yn ffafrio peidio â dweud a 2% yn an-ddeuaidd. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â data a ddarparwyd yng nghyfrifiad 2021, sy'n awgrymu bod 51.5% o ardal Abergwaun yn nodi eu bod yn fenywod.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch sy'n para, neu y disgwylir iddynt bara, am 12 mis neu fwy, gyda 48 allan o 49 o ymatebwyr yn dewis ateb. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 4-12. Fel cwestiwn dilynol, gofynnwyd i ymatebwyr hefyd a oedd unrhyw gyflyrau neu salwch yn lleihau eu gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd. Atebodd 15 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, a dangosir yr ymatebion yn Ffigur 4-13.

Ffigur 4-12 - A oes gennych unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch sy'n para neu y disgwylir iddynt bara 12 mis neu fwy?




Ffigur 4-13 - A yw unrhyw rai o'ch cyflyrau neu salwch yn lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd?



Mae gan draean yr ymatebwyr salwch corfforol neu feddyliol y disgwylir iddo bara am 12 mis neu fwy. O'r rhai sydd â salwch corfforol neu feddyliol parhaol, dywedodd 93% fod y salwch hwn yn effeithio o leiaf ychydig ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd ganddynt incwm net cartref isel, a dangosir yr ymatebion yn Ffigur 4-14.


Ffigur 4-14 - A oes gennych incwm cartref net isel?



Mae gan chwarter yr ymatebwyr incwm cartref net isel, gyda 54% yn ateb 'nac-oes' a 21% yn ffafrio peidio â dweud.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am effeithiau'r cynigion ar yr Iaith Gymraeg. Mae Ffigur 4-15 yn dangos yr ymatebion i'r cwestiwn, er ei bod yn werth nodi mai dim ond tri ymateb a dderbyniwyd.

Ffigur 4-15 - Pa effeithiau ydych chi'n teimlo y byddai'r cynnig(cynigion) yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?



Teimlai dau ymatebydd y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar y gymuned Gymraeg gan chwalu gallu'r gymuned i sgwrsio â'i gilydd ac i blant chwarae'n ddiogel ar y stryd, gan gyfyngu'r defnydd o'r Gymraeg.

Awgrymodd un ymatebwr y byddai effaith gadarnhaol pe bai'r gyrwyr bysiau yn hapus i gyfathrebu yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg. Gellid defnyddio arwyddion ar y bysiau i awgrymu pryd mae gyrrwr yn hapus i gyfathrebu yn y naill iaith neu'r llall.

5. Casgliadau o ddadansoddiad arolwg ar-lein

Tabl 5-1 yn dangos crynodeb o gasgliadau dadansoddiad yr arolwg a fydd yn cael ei ddefnyddio i lywio camau nesaf y cynigion.

Tabl 5-1 - Casgliadau o ymatebion i'r arolwg

Adran arolwg	Themâu allweddol
Gwasanaethau bws	O ran a yw ymatebwyr yn defnyddio eu gwasanaeth bws lleol ar hyn o bryd (Ffigur 4-1), dywedodd y mwyafrif o ymatebwyr (69%) 'nac-ydw', gyda 31% yn dweud 'ydw'. Y rhesymau mwyaf cyffredin dros deithio ar fws (Ffigur 4-2) yw gweithgareddau cymdeithasol (31%) ac i ddefnyddio siopau a gwasanaethau (28%).
Y cynnig	- Mae Ffigur 4-3 yn amlygu a fyddai ymatebwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio'r gwasanaeth bws yn amlach o ganlyniad i'r cynnig. Roedd yr ymatebion yn negyddol ar y cyfan, gyda 69% yn ymateb 'nac-ydw' ac 20% yn ymateb 'ydw' gyda 10% yn ansicr. Mae'r un dadansoddiad union o'r ymatebion i'w gael yn Ffigur 4-4 lle gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cefnogi'r cynnig llwybr bws hwn. Y rhesymau mwyaf am ymatebion 'nac-ydw' ac 'ansicr' (Ffigur 4-5) i'r cwestiynau a amlygwyd yn - Ffigur 4-1 Ffigur 4-3 , a Ffigur 4-4 oedd: pryderon am 'rat-runs' (22%), pryderon diogelwch (21%) a phryderon parcio (14%).
Safle opsiynau	Mae ffafriaeth glir rhwng y ddau opsiwn ar safle 3, gydag Opsiwn 2 yn cael ei ddewis fel y dewis a ffafrir gan 70% o ymatebwyr (Ffigur 4-6).
Anghenion hygyrchedd a sylwadau pellach	- O ran a oedd ymatebwyr yn credu y byddai'r cynnig yn addas ar gyfer anghenion hygyrchedd ychwanegol (Ffigur 4-7), atebodd 69% 'nac-ydw', gyda 27% yn ymateb 'ydw'. Roedd 4% o ymatebwyr yn ansicr. - Mae Ffigur 4-8 yn tynnu sylw at y rhesymau pam y dewiswyd ymatebion 'nac-ydw' neu 'ansicr' ar gyfer Ffigur 4-7. Y ddau reswm mwyaf cyffredin oedd bod yn erbyn y cynigion yn gyffredinol (30%) a phryderon diogelwch o ganlyniad i'r cynigion (20%). Mae bod yn erbyn y cynigion yn gyffredinol (26%) yn cael ei adleisio ymhellach gan Ffigur 4-9 sy'n amlygu themâu o unrhyw sylwadau pellach ar y cynigion. Pryderon amgylcheddol a'r teimlad nad oes llawer o alw am fysiau oedd y themâu mwyaf poblogaidd nesaf gyda 15% o'r ymatebion yr un.
Gwybodaeth ddemograffig	- Oedran mwyaf cyffredin yr ymatebwyr yw 35-44 (20% o'r ymatebion), a chynrychiolir oedrannau o dan 15 i dros 75 hefyd (Ffigur 4-10). Roedd 46% o'r ymatebwyr yn 55 oed neu'n hŷn, sy'n cynrychioli Abergwaun lle mae 46.6% o'r boblogaeth yn 55 oed neu'n hŷn¹. - Mae 50% o'r ymatebwyr yn fenywod, 44% yn ddynion, gyda 4% yn ffafrio peidio â dweud a 2% yn an-ddeuaidd (Ffigur 4-11). - Mae gan draean yr ymatebwyr salwch corfforol neu feddyliol y disgwylir iddo bara am 12 mis neu fwy (Ffigur 4-12). - O'r rhai sydd â salwch corfforol neu feddyliol parhaol, dywedodd 93% fod y salwch hwn yn effeithio o leiaf ychydig ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd (Ffigur 4-13). - Mae gan chwarter yr ymatebwyr incwm net cartref isel (Ffigur 4-14). - Dim ond tri ymateb a dderbyniwyd ynghylch a fyddai'r cynigion yn effeithio ar bersonau sy'n ceisio siarad/defnyddio'r Gymraeg. Gyda dau yn dweud y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar y gymuned Gymraeg, ac un sylw yn awgrymu y byddai effaith gadarnhaol pe bai'r gywyrwysau yn cyfathrebu yn Gymraeg (Ffigur 4-15).

6. Ymgysylltiad Diwrnod 'reidio ar hyd' – dadansoddi'r ymatebion

Cwblhawyd 20 arolwg fel rhan o'r ymgysylltiad diwrnod 'reidio ar hyd', mae hyn yn gymhariaeth â'r 49 o ymatebion a dderbyniwyd dros gyfnod pedair wythnos y rownd gyntaf o ymgynghori, sy'n awgrymu bod yr ail rownd o ymgysylltu wedi bod yn fuddiol ar gyfer casglu adborth lleol.


Mae'n bwysig nodi, er bod 20 o ymatebwyr unigol wedi ateb cwestiynau'r arolwg, yn yr adran ganlynol, mae graffiau a chanddynt dros 20 o ymatebion yn cynnwys ymatebion i nifer o gwestiynau wedi'u cyfuno. Yn ogystal, efallai na fydd canrannau mewn graffiau yn adio i 100% oherwydd mân anghysondebau talgrynnu.

Ni ofynnodd yr arolwg am unrhyw ddata demograffig fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, fodd bynnag, nododd mynychwyr y digwyddiad o CSP fod mwyafrif y defnyddwyr yn drigolion wedi ymddeol.

6.1.1 Pwrpas ac amllder teithiau bws


Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedd diben defnyddio'r bws a pha mor aml yr oeddent yn defnyddio'r gwasanaeth 410, a ddangosir yn Ffigur 6-1 y drefn honno a Ffigur 6-2 yn y drefn honno.

Ffigur 6-1 - Beth yw eich pwrpas ar gyfer defnyddio'r bws?



Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn i'w pwrpas, a dyna pam fod cyfanswm yr ymatebion dros 27. Dywedodd 63% o'r ymatebion eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth i gael mynediad at siopau a gwasanaethau, sef yr opsiwn mwyaf poblogaidd o dros bedair gwaith yr ail reswm mwyaf poblogaidd. Dibenion eraill a ddewiswyd oedd teithiau cymdeithasol (15%), ymweld â ffrindiau a theulu (11%) a theithiau gwaith (7%).

Ffigur 6-2 - Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r bws?




Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn defnyddio'r bws bob dydd (80%), gyda 15% yn defnyddio'r bws yn wythnosol a 5% yn defnyddio'r bws bob mis. Mae hyn yn dangos bod galw am ddefnydd bysiau a gwell seilwaith bysiau gan ymatebwyr yr arolwg, ac efallai dibyniaeth ar y gwasanaeth, yn enwedig oherwydd demograffeg Penwallis a'i chymuned.

Ffigur 6-3 yn dangos yr effaith y mae ymatebwyr yn meddwl y byddai'r llwybrau bysiau arfaethedig yn ei chael ar eu taith bws. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis o'r opsiynau canlynol:

- Cadarnhaol.
- Negyddol.
- Dim.

Ffigur 6-3 - Pa effaith fyddai'r llwybrau arfaethedig hyn yn ei chael ar eich taith?



Dewisodd yr holl ymatebwyr naill ai dim effaith (75%) neu gadarnhaol (25%). Mae hyn yn dangos er mai dim ond chwarter yr ymatebwyr oedd yn teimlo y byddai'r llwybrau arfaethedig yn cael effaith fuddiol ar eu taith bws, ni allai neb nodi unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i'r newidiadau.


Mae'n bosibl bod ymatebwyr o'r arolwg 'reidio ar hyd' wedi teimlo na fyddai unrhyw effaith, neu nad oeddent yn gallu gwneud sylw ar effaith y cynllun, gan nad yw teithwyr sy'n teithio ar y llwybr bysiau presennol yn debygol o ddod o'r ardal darged a nodwyd. Gan nad yw'r gwasanaeth presennol yn gallu cael mynediad i ardaloedd Penwallis, mae'n bosibl bod adborth uniongyrchol gan drigolion Heol Glyndŵr, Bryn Llewellyn, Heol Caradog a Dan y Bryn wedi bod yn gyfyngedig.

6.1.2 Opsiynau


Mae Ffigur 6-4 a Ffigur 6-5 yn dangos pa mor fuddiol y bydd yr opsiynau llwybr newydd arfaethedig. Yr opsiynau llwybr hyn yw:

- Trwy Penwallis – Bryn Llewellyn – Heol Glyndwr (llwybr pinc).
- Trwy Benwallis – Heol Caradog – Dan y Bryn (llwybr coch).

Ffigur 6-4 - Pa mor fuddiol yn eich barn chi fyddai'r llwybr arfaethedig newydd drwy Benwallis – Bryn Llewellyn – Heol Glyndŵr (Llwybr Pinc)?




Ffigur 6-5 - Pa mor fuddiol yn eich barn chi fyddai'r llwybr arfaethedig newydd drwy Benwallis – Heol Caradog – Dan y Bryn (Llwybr Coch)?



Ar y cyfan, ystyrir y ddau lwybr yn gadarnhaol, gyda'r llwybr pinc yn cael ei weld ychydig yn fwy cadarnhaol na'r llwybr coch. Mae 85% o'r ymatebwyr yn meddwl y bydd llwybr pinc yn fuddiol neu'n fuddiol iawn, heb unrhyw ymateb yn dewis dim yn fuddiol neu ddim yn fuddiol o gwbl. Yn yr un modd, mae 79% o'r ymatebwyr yn meddwl y byddai'r llwybr pinc yn fuddiol neu'n fuddiol iawn, heb unrhyw ymateb yn dewis ddim yn fuddiol neu ddim yn fuddiol o gwbl.

Ffigur 6-6 yn dangos pa mor fuddiol fyddai safle bws newydd ym Mhenwallis ym marn ymatebwyr.


Ffigur 6-6 - Pa mor fuddiol yn eich barn chi fyddai safle bws newydd ym Mhenwallis?



Ar y cyfan, mae'r safle bws ychwanegol i'w weld yn gadarnhaol. Mae 85% o'r ymatebwyr yn meddwl y byddai'r safle bws yn fuddiol neu'n fuddiol iawn, ac nid oedd unrhyw ymateb yn dewis ddim yn fuddiol neu ddim yn fuddiol o gwbl.

Mae Ffigur 6-7 yn dangos pa opsiwn (o'r llwybrau coch a phinc) sy'n well gan ymatebwyr.

Ffigur 6-7 - Gan edrych ar yr opsiynau, pa un sydd orau gennych chi?



Nid oes gan y mwyafrif o ymatebwyr unrhyw ffafiaeth (65%) sy'n cyfateb i gwestiynau blaenorol sy'n amlygu bod y ddau opsiwn yn cael eu gweld yr un mor gadarnhaol. O ran y cwestiwn hwn, dewisodd 25% o ymatebwyr y llwybr coch gyda 10% yn dewis y llwybr pinc, gan ddangos bod ffafiaeth fach i'r llwybr coch, ond sy'n mynd yn groes i'r ymatebion buddiol / buddiol iawn cyffredinol yn Ffigur 6-4 a Ffigur 6-5.

6.1.3 Sylwadau pellach

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd am unrhyw sylwadau pellach ar y cynigion. Roedd yr adborth cyffredinol a dderbyniwyd ar y diwrnod gan aelodau tîm y CSP yn gadarnhaol iawn ynghylch ymestyn y llwybr bws hyd yn oed gan y rhai nad ydynt yn defnyddio ardal Penwallis. Dywedodd un defnyddiwr y byddai'r cynnig yn welliant i'w gymudo dyddiol gan y byddai'r llwybr yn mynd heibio i'w dŷ a byddai'n defnyddio'r safle bws arfaethedig ym Mhenwallis, tra bod gan ddefnyddiwr arall deulu yn yr ardal hon felly byddai'n defnyddio'r llwybr newydd. Cafodd Jill, gyrrwr y bws, ganmoliaeth fawr.

Mae'r sylwadau allweddol a gasglwyd o'r 'reidio ar hyd' wedi'u crynhoi isod:

- Cafodd y gwasanaeth 13:00 ei ddileu ar ôl COVID-19, gan adael bwlch o ddwy awr yn amserlen y gwasanaeth. Crybwyllwyd hyn gan lawer o ddefnyddwyr a oedd yn teimlo y dylai weithredu yn ystod y cyfnod hwn.
- Mae angen llwybr bws sy'n rhedeg ar adegau diweddarach o Wdig i stopio a galw gan fod y bryn yn rhy serth i gerdded i fyny, yn enwedig ar gyfer y rhai â phroblemau hygrychedd.

- Ar adegau, mae cerbydau sydd wedi parcio yn achosi rhwystr ym Mhentref Harbwr Wdig, gan achosi i fysiau ei chael yn anodd symud heibio.
- Mae unrhyw welliannau i'r llwybr yn cael eu gweld fel budd gan ei fod yn rhoi mwy o gyfle i bobl ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae yna angen mawr am y gwasanaeth a gwneir defnydd da ohono.
- Nid yw amseroedd bysiau yn unol â chysylltiadau â bws Hwlfordd (T5) na bws Aberteifi (460). Mae yna awydd i lwybr cynnar T5 Hwlfordd ddychwelyd.
- Nid oes llwybr bws ym Mharc y Cefn.
- Does dim digon o fysiau yn Heol Glyndwr.

Gwnaeth rhai awgrymiadau ynghylch yr opsiynau ac a allai'r ddau opsiwn redeg bob yn ail amser fel y byddai'r ddau ben terfyn yn cael eu hagor a'u defnyddio, ac a ellid treialu'r llwybr am chwe mis i weld a fyddai'n ymarferol.

Mae gweithredwr y gwasanaeth (Richards Bros) wedi ymateb i'r awgrymiadau hyn, gan nodi na fyddai defnyddio'r ddau opsiwn ar yr un pryd yn opsiwn ymarferol oherwydd y cynnydd yn y gost o wneud hynny a'r budd cyfyngedig o ganlyniad, ac ni fyddai treial chwe mis yn bosibl oherwydd y gwaith seilwaith sydd ei angen i agor y ffordd a gosod rhwystr.

7. Casgliadau o ddadansoddiad arolwg diwrnod ymgysylltu 'reidio ar hyd'

Tabl 7-1 yn dangos crynodeb o gasgliadau dadansoddiad yr arolwg a fydd yn cael ei ddefnyddio i lywio camau nesaf y cynigion.

Tabl 7-1 – Casgliadau o ymatebion i'r arolwg

Adran arolwg	Themâu allweddol
Pwrpas ac amllder teithiau bws	- Dewisodd 63% o'r ymatebion (Ffigur 6-1) gael mynediad i siopau a gwasanaethau, yr opsiwn mwyaf poblogaidd (at ddibenion defnyddio'r bws) o fwy na phedair gwaith y nesaf. Dewiswyd teithiau cymdeithasol (15%), ymweld â ffrindiau a theulu (11%) a theithiau gwaith (7%) hefyd. - Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn defnyddio'r bws bob dydd (80%) (Ffigur 6-2), gyda 15% yn defnyddio'r bws yn wythnosol a 5% yn defnyddio'r bws bob mis. Mae hyn yn dangos bod galw am ddefnyddio bysiau a gwella seilwaith bysiau gan ymatebwyr yr arolwg. - Dewisodd yr holl ymatebwyr naill ai dim effaith (75%) neu gadarnhaol (25%) ar gyfer yr effaith y byddai'r llwybrau bysiau arfaethedig yn ei chael ar eu teithiau (Ffigur 6-3). Mae hyn yn dangos bod yna gred y bydd y llwybrau arfaethedig yn cael effaith fuddiol ar deithiau bws i drigolion.
Opsiynau	- Ar y cyfan, ystyrir y ddau lwybr yn gadarnhaol (Ffigur 6-4 a Ffigur 6-5). Mae 85% o'r ymatebwyr yn meddwl y bydd llwybr pinc yn fuddiol neu'n fuddiol iawn, heb unrhyw ymateb yn dewis ddim yn fuddiol neu ddim yn fuddiol o gwbl. Yn yr un modd, mae 79% o'r ymatebwyr yn meddwl y byddai'r llwybr pinc yn fuddiol neu'n fuddiol iawn, heb unrhyw ymateb yn dewis ddim yn fuddiol neu ddim yn fuddiol o gwbl. - Mae 85% o ymatebwyr (Ffigur 6-6) yn meddwl y bydd yr safle bws yn fuddiol neu'n fuddiol iawn, heb unrhyw ymateb yn dewis nad yw'n fuddiol neu ddim yn fuddiol iawn o gwbl. - Pan ofynnwyd iddynt ba lwybr a ffafrir ganddynt, dewisodd 25% o'r ymatebwyr y llwybr coch, gyda 10% yn dewis y llwybr pinc, gan ddangos bod ffafriaeth fach i'r llwybr coch. Nid oedd gan y 65% arall unrhyw ffafriaeth dros y ddau lwybr (65%), gan amlygu bod y ddau opsiwn yn yr un mor gadarnhaol (Ffigur 6-7).
Sylwadau pellach	- Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd am unrhyw sylwadau pellach ar y cynigion. Mae'r prif bwyntiau a godwyd wedi'u crynhoi isod: - Cafodd y gwasanaeth 13:00 ei ddileu ar ôl y pandemig COVID-19, gan adael bwlch o ddwy awr yn amserlen y gwasanaeth. Crybwyllwyd hyn gan lawer o ddefnyddwyr a oedd yn teimlo y dylai weithredu yn ystod y cyfnod hwn. - Mae angen llwybr bws sy'n rhedeg ar adegau diweddarach o Wdig i stopio a galw gan fod y bryn yn rhy serth i gerdded i fyny, yn enwedig ar gyfer pobl â phroblemau hygrychedd. - Ar adegau, mae cerbydau sydd wedi parcio yn achosi rhwystr ym Mhentref Harbwr Wdig, gan ei gwneud hi'n anodd i fysiau fynd heibio. - Mae unrhyw welliannau i'r llwybr yn cael eu gweld fel budd gan ei fod yn rhoi mwy o gyfle i bobl ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Mae yna angen mawr am y gwasanaeth ac mae wedi'i ddefnyddio'n dda. - Nid yw amseroedd bysiau yn unol â chysylltiadau â bws Hwlfordd (T5) na bws Aberteifi (460). Mae yna awydd i lwybr cynnar T5 Hwlfordd ddychwelyd. - Nid oes llwybr bws ym Mharc y Cefn. - Does dim digon o fysiau yn Heol Glyndwr.

8. Camau nesaf

Pwrpas y ddwy rownd o ymgysylltu oedd ymgysylltu'n ffurfiol â'r gymuned leol ar y cynigion arfaethedig ar gyfer gwelliannau teithio, fel rhan o'r ymgysylltiad ehangach ar gyfer gwelliannau teithio ledled Sir Benfro. Bydd yr adborth a dderbyniwyd o'r ddwy rownd o ymgysylltu, a'i dadansoddwyd yn yr adroddiad hwn, yn cael ei nodi a'i drafod i bennu unrhyw atebion yn y dyfodol, yn amodol ar gyllid.



AtkinsRéalis



AtkinsRéalis UK Limited

The Hub
500 Park Avenue
Aztec West
Bristol
BS32 4RZ

Tel: +44 (0)1454 662000
Fax: +44 (0)1454 663333

© AtkinsRéalis UK Limitedac eithrio lle nodir yn wahanol